| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **29 Hydref 2013** |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2013/14. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno ynghylch y Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau yn nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2013/14 (**Atodiad 1**). Cyllideb net y Cyngor yw £192m. Ar ddiwedd mis Medi, rhagwelir tanwariant ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol o £1,194k (£851k y mis diwethaf) sy'n cynrychioli amrywiad o 0.93%.

Mae **Atodiad 2** yr adroddiad yn dangos y cynnydd hyd yn hyn yn erbyn yr arbedion a amlygwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2013/13. Cytunwyd ar darged arbed o £3.061 miliwn ar gyfer y flwyddyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb refeniw a chyfalaf y cyngor a darparu strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni'n sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae rhagolygon gwasanaethau cefnogi wedi'u nodi isod, os yw'n angenrheidiol:

**Cynllunio Busnes a Pherfformiad –** Y rhagolygon ar hyn o bryd yw tan wariant o £40k oherwydd y cynllun i beidio llenwi swyddi sy'n wag yn awr. Mae'r arbedion hyn yn ffurfio rhan o gynigion y gyllideb ar gyfer 2014/15 ar gyfer y gwasanaeth. Argymhellir bod y gwasanaeth yn cael defnyddio'r tanwariant yn y blynyddoedd sydd i ddod i hybu prosiect EDRMS ac felly rhoddir yr arian yng nghronfa wrth gefn EDRMS a grëwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

**Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd –** y rhagolygon ar hyn o bryd yw gorwariant o £142k, gostyngiad o £52k o'r hyn yr adroddwyd y mis diwethaf. Mae'r symudiad hwn yn bennaf oherwydd symud cynnig effeithlonrwydd ar gyfer 2014/15 yn ymwneud â rhyddhau cyllideb cyfrif masnach Glanhau Adeiladau yn ei flaen. Mae hyn yn rhannol yn erbyn pwysau yng Ngosodiadau Arfordirol yn ymwneud ag unedau gwag ym Mhentref y Plant (Y Rhyl). Gobeithir y bydd y gorwariant net ar draws y gwasanaeth yn cael eu meddiannu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol pan fydd effaith llawn ailstrwythuro'r gwasanaeth wedi'i benderfynu.

**Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd-** mae rhagolygon o danwario o ganlyniad i ganfod gwariant ychwanegol y gellir ei roi yn erbyn grant Cynllunio Darpariaeth i Gymru. Byddai cynnig y gwasanaeth ar gyfer unrhyw fuddiant yn ystod y flwyddyn sydd i'w ddefnyddio i leddfu effaith gostyngiadau i'r grant yn y dyfodol.

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd –** mae'r rhagolygon wedi gwella o £21k i £560k gan fod nifer y staff sy'n cofrestru ar gyfer y cynllun pensiwn yn y gwasanaeth wedi bod yn is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Fel yr adroddwyd y mis diwethaf, mae dewisiadau i ddarparu rhaglen gweithgareddau ar gyfer Plant ag Anableddau yn cael eu hystyried a chynnig y gwasanaeth yw bod £250k o'r tanwariant eleni yn cael ei osod o'r neilltu mewn cronfa wrth gefn a'i glustnodi er mwyn buddsoddi yn y blynyddoedd sydd i ddod.

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiant –** Mae'r adolygiad manwl o leoliadau Tu Allan i'r Sir a'r adenillion a adroddwyd y mis diwethaf wedi'u cwblhau yn awr gan alluogi rhagamcan cadarn. Er bod y cyllidebau'n parhau i fod yn gyfnewidiol rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y maes hwn yn tanwario £251k. Mae cynigion y gyllideb ar gyfer 2014/15 yn cynnwys effeithlonrwydd o £200k ar gyfer y maes hwn ar hyn o bryd. Er bod hyn yn seiliedig ar weithgarwch dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyllidebau cyfnewidiol yn golygu y gall y costau amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Felly argymhellir y dylid gosod tanwariant eleni mewn cronfa wrth gefn i ddarparu arian at raid yn erbyn costau i'r dyfodol i gefnogi gostyngiad yn y gyllideb y flwyddyn nesaf.

**Ysgolion –** ar ddiwedd mis Medi y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion yw £3.013m, sy'n symudiad positif o £143k ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2012/13 (£2.870m). Mae'r cyngor yn parhau i weithio gyda dwy ysgol sy'n cael anawsterau ariannol. Mae'r ddwy ysgol wedi gosod cynlluniau adfer ac yn gweithio'n galed i gyflawni'r targedau a osodwyd yn y cynlluniau hyn. Y

rhagolygon ar gyfer y gyllideb sydd heb ei dirprwyo ar hyn o bryd yw tanwariant o £115k.

Cariwyd cronfeydd y **Cynllun Corfforaethol** o £10.3m ymlaen i 2013/14, gan adael gofyniad arian o tua £11.7m i ddarparu'r cynllun. Roedd cyllideb 2013/14 wedi clustnodi adnoddau cyllidebol newydd penodol o £600k i'w ddyrannu o'r Gronfa Cynllun Corfforaethol a rhagdybio y bydd o leiaf £1.3m o adnoddau a nodwyd yn flaenorol yn cael ei drosglwyddo i ariannu'r Cynllun Corfforaethol os bydd amgylchiadau yn caniatáu. Tybir y bydd y trosglwyddiadau hyn yn cael eu cyflawni.

Mae cyllideb y **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** hefyd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 er hwylustod, ond mae adnoddau CRT yn gyllid ar wahân i brif adnoddau'r cyngor, a gellir ond eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau tai cyngor. Mae'r sefyllfa refeniw diweddaraf yn rhagdybio gostyngiad o £4k mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn sy'n welliant o £98k o'i gymharu â'r rhagdybiaeth yn y gyllideb. Mae rhent anheddau ychydig yn uwch na ragwelwyd ac mae taliad cymhorthdal ar gyfer y flwyddyn yn debygol o fod yn llai na'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r Cynllun Cyfalaf Tai yn unol â'r targed i wario £8.1m a dylai Safon Ansawdd Tai Cymru fod wedi'i gyflawni erbyn diwedd 2013/14.

Mae'r dangosyddion diweddaraf yn awgrymu y bydd system Cymhorthdal Tai yng Nghymru yn parhau am flwyddyn arall ac felly ni fydd angen cyflwyno hunan-ariannu ar gyfer stoc tai'r cyngor nes 2015/16

Mae crynodeb o'r **Cynllun Cyfalaf** wedi'i amgáu fel **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £46.1m ac mae'r gwariant hyd at ddiwedd mis Medi yn £9.9 miliwn. Hefyd wedi ei gynnwys yn Atodiad 3 mae'r gwariant arfaethedig o £9.1 miliwn ar y **Cynllun Corfforaethol**. Mae **Atodiad 4** yn cynnwys y diweddaraf ar y prosiectau cyfalaf mawr sydd yn y Nghynllun Cyfalaf eleni.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb?**

Cyflwynwyd crynodeb o Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'r Cyngor ym mis Chwefror 2013.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu gwneud â'r pwyllgor Archwilio ag eraill?**

Cynhaliwyd ymarferion herio gwasanaeth gyda phob pennaeth gwasanaeth ac roedd cynrychiolwyr o'r pwyllgor archwilio a'r Cabinet yn rhan o'r ymarferion hyn. Cynhaliwyd gweithdai Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb gydag aelodau ym mis Medi, Tachwedd a Rhagfyr. Cymeradwyodd y Cyngor y cynllun cyfalaf yn dilyn craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac wedi i'r cabinet ei argymell.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’n bwysig bod gwasanaethau yn parhau i reoli cyllidebau’n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben yn ystod y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun sefyllfa ariannol y tymor canolig, yn enwedig oherwydd cyfraddau gostyngiadau cyllidebau sydd eu hangen yn y ddwy flynedd nesaf.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol. Yn sail i fforddiadwyedd y Cynllun mae rhagdybiaethau allweddol ynghylch cyllidebau refeniw ac arian. Mae maint y Cynllun Corfforaethol yn golygu y bydd yn ymestyn dros gyfnod o 5-7 mlynedd ac yn sicr yn golygu wrth iddo ddatblygu, y bydd gwahaniaethau amser rhwng y rhagdybiaethau a gynlluniwyd a'r rhagdybiaethau gwirioneddol ynghylch y defnydd o arian. Bydd hyn yn golygu y gall y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gynyddu hyd nes y gwneir ymrwymiadau. Fodd bynnag mae’n hanfodol cydnabod, os yw adnoddau'n cael eu hailgyfeirio yn ystod oes y Cynllun, y bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu pa brosiectau a nodwyd yn flaenorol y byddai am eu canslo.

Ar ddiwedd mis Medi, roedd cyfanswm benthyca’r cyngor yn £132.458m ar gyfradd cyfartalog o 5.79%. Roedd balansau buddsoddi yn £25.5m ar gyfradd cyfartalog o 0.81%.

## 10. Beth yw'r risgiau, ac allwn ni wneud rhywbeth i'w lleihau nhw?

Dyma’r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu a bydd methu â chyflawni’r strategaeth gyllidol y cytunwyd arni yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a thros y blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Bydd monitro a rheoli cyllidebol effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

Mae’r CRT yn gwneud buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella’r stoc tai ac yn defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu’r gwaith. Rhaid i unrhyw fenthyciad fod yn fforddiadwy ac mae gwaith monitro rheolaidd a chymeradwyaeth flynyddol ac asesiad hyfywedd o Gynllun Busnes y Stoc Tai yn sicrhau mai felly y mae.

## 11. Grym i wneud Penderfyniad:

. Gofynnir i awdurdodau lleol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.